**ATODLEN** **Rheoliadau 4(2), 7(2) a 13(2)(g)**

**AMODAU Y MAE'N RHAID I LADD-DAI COFRESTREDIG GYDYMFFURFIO Å HWY**

# RHAN 1

**Amodau sy'n gymwysadwy at bob anifail premiwm**

**1.** Rhaid i'r gweithredydd lladd-dy wneud cofnod cywir, ar gyfer pob diwrnod, yn ysgrifenedig neu drwy gyfrwng cyfrifiadur, o rif lladd, dyddiad cigydda ac (yn ddarostyngedig i baragraff 2) rhif tag clust pob anifail premiwm sy'n cael ei ladd ar y diwrnod hwnnw.

**2.** Os nad oes gan anifail premiwm rif tag clust, ond ei fod wedi'i farcio â dull adnabod arall a gymeradwywyd neu fod dull adnabod arall a gymeradwywyd ar gael gydag ef, rhaid i'r gweithredydd lladd-dy nodi copi o'r dull adnabod arall a gymeradwywyd yn y cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 1 yn lle'r rhif tag clust.

**3.** Rhaid i'r gweithredydd lladd-dy gadw'r cofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 a phob dogfen lladd-dy arall, ac eithrio tagiau clust, pasbortau gwartheg a dulliau adnabod eraill a gymeradwywyd, tan 31 Rhagfyr yn y drydedd flwyddyn ar ôl y flwyddyn y cawsant eu creu, neu y daethant i law'r gweithredydd, p'un bynnag yw'r hwyraf.

**4.** Rhaid i'r gweithredydd lladd-dy sicrhau bod person awdurdodedig sy'n bresennol yn y lladd-dy, neu sy'n cyfathrebu â'r lladd-dy, yn cael arfer y pwerau a roddir gan reoliadau 24 a 25, y cydymffurfir ag unrhyw ofyniad a wneir gan berson awdurdodedig o dan reoliad 25 a bod cymorth yn cael ei roi iddo neu iddi yn unol â rheoliad 26.

# RHAN II

**Amodau sy'n gymwysadwy at loi premiwm sy'n cael eu cigydda yn bum mis neu'n chwe mis oed**

**5.** Ar ôl cigydda llo premiwm sy'n bum mis oed o leiaf, rhaid i'r gweithredydd lladd-dy roi cofnod ysgrifenedig i'r person y prynodd y llo oddi wrtho, neu y lladdodd y llo ar ei ran, yn ôl fel y digwydd, a hwnnw'n dangos—

(a) enw a chyfeiriad y lladd-dy;

(b) rhif tag clust y llo premiwm;

(c) ei rif lladd;

(ch) dyddiad ei gigydda;

(d) pwysau'r carcas; ac

(dd) a gafodd y carcas ei bwyso—

(i) ar ôl cael ei oeri neu yn gynnes; a

(ii) gyda'r afu, yr arennau a braster yr arennau neu hebddynt.

**6.**—(1) Pwysau'r carcas a gyflwynir âr ôl ei flingo, ei ddiberfeddu a'i waedu, heb y pen a'r traed, a hynny mewn cilogramau ar ôl ei oeri, neu ei bwysau cynnes mewn cilogramau cyn gynted â phosibl ar ôl ei gigydda wedi'u gostwng dau y cant, yw pwysau'r carcas y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(d) o'r Atodlen hon.

(2) Os cyflwynir y carcas heb yr afu, yr arennau neu fraster yr arennau, rhaid cynyddu ei bwysau yn ôl y canlynol—

(a) 3.5 cilogram am yr afu;

(b) 0.5 cilogram am yr arennau; ac

(c) 3.5 cilogram am fraster yr arennau.